

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Diben

Mae'r templed hwn wedi'i ddylunio i lywio trafodaethau ynghylch cydraddoldeb, cynwysoldeb a thegwch a helpu'r Cynulliad i ddangos ein bod yn rhoi sylw dyledus i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn Neddff Cydraddoldeb 2010 wrth ddylunio ac adolygu prosiectau, polisiau a strategaethau, ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Dylid cynnal yr Asesiad yn ystod camau ffurfiannol y gwaith o ddatblygu proses / polisi fel ei fod yn hanfodol yn y broses o wneud penderfyniadau. Ni ddylid cynnal yr Asesiad ar ôl i'r penderfyniadau gael eu gwneud. Gellir diweddarau Asesiad yn ystod y broses o wneud penderfyniadau, yn ôl y gofyn.

Ystyriaethau allweddol

- Yn ystod trafodaethau, dylid ystyried perthnasedd a chymesuredd.
- Sicrhau eich bod wedi defnyddio tystiolaeth i lywio eich ystyriaethau, pan fo'n berthnasol. Gall tystiolaeth fod ar ffurf ystadegau neu gall fod yn wybodaeth ac yn dystiolaeth ansoddol o unrhyw ffynhonnell sy'n tynnu sylw at brofiadau pobl o grwpiau nodweddion gwarchoddedig a'r rhwystrau a wynebir ganddynt.
- Sicrhau bod llwybr archwilio ar gael.
- Sicrhau bod gennych rywbeth y gellid ei gyhoeddi i ddangos y rhoddwyd sylw dyledus i gydraddoldeb fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
- Wrth gynnal Asesiad, dylid ystyried sut y mae cydraddoldeb yn rhyngweithio ag asesiadau eraill o effaith a materion, gan gynnwys cynaliadwyedd ac leithoedd Swyddogol ac ati.
- Dylid cynnal Asesiad o safbwynt rhagweithiol a'i ystyried fel cyfle i hyrwyddo materion sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig a datblygu cyfle cyfartal.

Gweler y polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig am gyfarwyddiadau manylach.

Enw'r Polisi - Cynllun leithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Pumed Cynulliad

Dyddiad yr Asesiad o Effaith - Hydref 2016 (dyddiad cychwyn)

Cynhaliwyd yr asesiad o effaith gan - Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn a Sarah Dafydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol.



01. Rhagarweiniad

Diben y Polisi

Yn unol â gofynion Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012, mae'r Cynllun leithoedd Swyddogol yn cynnwys ein safonau gwasanaeth a'r meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn ein dwy iaith swyddogol (Cymraeg a Saesneg) tan ddiwedd y Pumed Cynulliad yn 2021. Erbyn hynny, bwriedir y byddwn wedi cyflawni ein huchelgais sef:

“Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu gwella'n barhaus.”

Ar gyfer pwy mae'r Polisi?

Defnyddwyr ein gwasanaethau (Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd).

Staff y Comisiwn sy'n darparu'r gwasanaethau.

Pwy sydd wedi cymryd rhan / pwy yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad o effaith?

Y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle

Sefydliad allanol ym maes cydraddoldeb (adborth gan gyfaill beirniadol)

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft, cafwyd sylwadau gan yr unigolion a'r grwpiau a ganlyn, a bu rhai ohonynt o gymorth ar gyfer yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

Pennaeth Adnoddau Dynol

Ochr yr Undebau Llafur

Yr holl staff – drwy gyfrwng eitem newyddion ar y fewnwyd a sesiynau galw heibio

Cafwyd ymatebion allanol i'r ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.



Defnyddiwyd y polisiau a'r dystiolaeth ychwanegol a ganlyn:

Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg: Recriwtio: Ystyriaethau'r Gymraeg

Safonau'r Gymraeg

Cysondeb â blaenoriaethau strategol eraill: Strategaeth Gorfforaethol Comisiwn y Cynulliad, Strategaeth Pobl, Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Gofynion deddfwriaethol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ni lwyddwyd i ganfod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gan sefydliadau eraill a allai fod wedi helpu yn ein hystyriaethau ar gyfer yr asesiad hwn. Fe all mai'r rheswm am hyn yw bod cael dwy iaith swyddogol, statudol, yn unigryw yng Nghymru.

02. Effeithiau cydraddoldeb posibl ar nodweddion cydraddoldeb gwahanol

Oedran (Dylid ystyried pobl iau, pobl hŷn a phobl o oedran gweithio)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes

Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Darparu gwasanaethau

Yn ôl cyfrifiad diwethaf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2011 roedd tua 19 y cant o boblogaeth Cymru yn defnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o'r rheini yn y system addysg, ac rydym yn flaenweithgar o ran ein hymwneud â hwy drwy gyfrwng ein rhaglenni addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig ddeddfwrfa gwbl ddwyieithog yn y DU, a'r prif sefydliad democrataidd yng Nghymru. Felly, mae gan ein holl gwsmeriaid, beth bynnag fo'u hoedran, hawl gyfreithiol i gael ein gwasanaethau'n ddwyieithog. Mae'n bwysig, felly, cael staff dwyieithog yn y manau cywir er mwyn inni allu darparu gwasanaethau dwyieithog fel mater o drefn, lle mae gan bobl o bob oed hawl i'r gwasanaethau hynny, yn y naill iaith neu'r llall, neu'r ddwy ohonynt. Datblygwyd amryw ffyrdd o ddarparu ein gwybodaeth (wyneb yn wyneb, copïau papur, dulliau electronig), a chaiff y wybodaeth honno ei chyflwyno gan gymryd i ystyriaeth bod pobl o oedran gwahanol, ar y cyfan, yn chwilio am wybodaeth mewn dulliau gwahanol. Yn ein barn ni, nid yw'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio ar gydraddoldeb o ran oedran, ond aethom ati serch hynny, i ofyn am adborth gan ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle. Byddwn hefyd yn gofyn am safbwyntiau allanol am hyn i weld a oes camau gweithredu y dylem eu hystyried.



Recriwtio a Chyflogaeth

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

Byddwn hefyd yn gofyn am safbwyntiau allanol am hyn i weld a oes camau gweithredu y dylem eu hystyried.

Anabledd (Dylid ystyried namau ar y synhwyrâu, namau corfforol, namau cudd, anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, cyflyrau iechyd hirdymor)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Darparu gwasanaethau

Mae gan y Cynulliad amrywiaeth eang o achrediadau a safonau i wneud ein gwasanaethau'n hygyrch. Yn eu plith, mae gwybodaeth hawdd ei darllen, testun clir ac ati.

Recriwtio a Chyflogaeth

Caiff staff anabl eu recriwtio am y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer eu rolau (bydd yr anghenion ieithyddol ar gyfer pob swydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw). Mae gan nifer o'n staff dwyieithog namau ar y synhwyrâu a namau corfforol, problemau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd hirdymor. Gallant fanteisio ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth sydd ar gael i holl staff Comisiwn y Cynulliad. Er enghraifft, mae llawer o'n staff, gan gynnwys rhai sy'n gweithio'n ddwyieithog, yn defnyddio technoleg adnabod llais fel addasiad rhesymol. Lle mae angen sgiliau iaith i ymgeisio am swydd, neu lle bo'n rhaid dysgu iaith yn ystod y cyfnod cynefino neu'r cyfnod prawf, byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn y modd arferol. Enghreifftiau posibl o hynny yw ymestyn y cyfnod ar gyfer dysgu'r sgil, neu ddarparu dehonglwyr iaith arwyddion Prydain yn ôl yr angen. Rydym wedi gofyn am adborth gan Embrace, ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle. Pwysleisiodd y rhwydwaith bwysigrwydd addasiadau rhesymol ar gyfer staff anabl (fel yr amlinellwyd uchod).

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (yr Adran Gwaith a Phensiynau) sy'n gwarantu cyfweiliadau i bobl anabl ar yr amod eu bod yn



bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer dethol.

Caiff yr holl staff, ni waeth a ydynt yn anabl ai peidio, eu cefnogi a'u hannog i fanteisio ar y cyfle i ddysgu'r iaith – boed mewn dosbarth neu ar sail un i un – i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae'r gwersi Cymraeg a gynigir yn ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar gyfer gweithwyr anabl i'w galluogi a'u hannog i gymryd rhan. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn nodi cyfleoedd hyfforddi fel eu bod yn gyfarwydd â'r dulliau dysgu amgen sydd ar gael, ac er mwyn sicrhau y gellir gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr. Er enghraifft, yn ddiweddar iawn, cafwyd hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y sefydliad gan Dyslecsia Cymru.

O ran yr effaith bosibl ar weithwyr a darpar weithwyr, byddwn yn sefydlu gweithgor i edrych yn fanylach ar y problemau gan gydweithio â'n rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle a grwpiau allanol perthnasol lle bo hynny'n briodol.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

Byddwn yn gofyn barn ein gweithgor mewnol am hyn i weld a oes camau gweithredu y dylem eu hystyried.

Ailbennu rhywedd (Dylid ystyried pobl sy'n bwriadu ailbennu eu rhywedd neu sydd eisoes wedi gwneud hynny. Mae ailbennu rhywedd yn cyfeirio at y ffordd y mae unigolyn yn cydnabod ei rywedd ei hun)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes

Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Yn ein barn ni, nid yw'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y rhai sy'n bwriadu ailbennu eu rhywedd neu sydd eisoes wedi gwneud hynny. Serch hynny, gofynnwyd am farn bellach OUT-NAW, ein rhwydwaith cydraddoldeb LGBT yn y gweithle, ac roedd cadeirydd y rhwydwaith o'r farn nad yw'r Cynllun yn effeithio ar y grŵp hwn.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

Priodas a phartneriaeth sifil (Dylid ystyried a oes anfantais i bobl nad ydynt wedi priodi / mewn partneriaeth sifil o gymharu â'r rheini sydd)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?



Oes

Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Rydym o'r farn nad yw darpariaethau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y grŵp hwn.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

Beichiogrwydd a mamolaeth (Dylid ystyried menywod sy'n feichiog, sydd ar gyfnod mamolaeth neu sy'n bwydo o'r fron)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes

Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Rydym o'r farn nad yw darpariaethau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y grŵp hwn.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

Hil neu ethnigrwydd (Dylid ystyried pobl sy'n perthyn i grŵp lleiafrifoedd hiliol, ethnig neu ddiwylliannol, gan gynnwys tarddiad ethnig, lliw a chenedligrwydd)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes

Nac oes

Rydym wedi gofyn am safbwyntiau ychwanegol gan ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle ar gyfer Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol, REACH, ac mae'r sylwadau hynny wedi eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Byddwn yn parhau'r ddeialog trwy'r gweithgor ar recriwtio. Mae'r adran isod wedi rhannu yn themâu sy'n cynnwys nifer o'r materion a nodwyd gan aelodau REACH.

Darparu gwasanaethau

Gwybodaeth a gwasanaethau mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg

Mae'r gallu i gynnig cyfieithiadau mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, ar gael i ddefnyddwyr. Gall staff ddewis o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael, a allai gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:



dyfyniadau o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol neu wybodaeth arall a ddarperir ar draws y Cynulliad, wedi'u cyfieithu i iaith gymunedol, neu wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol. Y ffordd ymlaen fyddai holi defnyddwyr beth yn union sydd ei angen arnynt i'n helpu i roi gwybodaeth iddynt yn y ffordd fwyaf priodol. Pan fydd polisi corfforaethol o ran darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol ar gael byddwn yn cydymffurfio â'i ofynion. Gellir cynnig teithiau o gwmpas y Senedd mewn amryw ieithoedd fel y sonnir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, os trefnir y teithiau ymlaen llaw. Yn aml iawn, mae bobl bwysig o wledydd tramor sy'n ymweld â'r Cynulliad yn dod â dehonglwyr gyda hwy. Serch hynny, bydd ein tîm Cysylltiadau Rhyngwladol yn cysylltu â hwy ymlaen llaw i gadarnhau beth yw eu hanghenion.

Recriwtio staff

Rydym yn awyddus i ddenu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl, ond mae'n bosibl yr effeithir yn andwyol ar bobl sydd â braidd ddim Cymraeg neu ddim Cymraeg o gwbl, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cyfrif eu hunain yn Gymry. Byddwn yn croesgyfeirio'r asesiad hwn gyda'r asesiad o'r effaith ar gydraddoleb yr arferion recriwtio. Gweler isod y math o broblemau a allai ddigwydd a'r camau y gellir eu cymryd i leihau'r posibilrwydd o anfantais.

Effaith ar staff presennol a'u dyrchafiad o fewn y sefydliad

Rydym yn gwybod, o'r hyn a ddywedwyd wrthym gan aelodau o'r cyhoedd, fod canfyddiad ers tro bod yn rhaid i bobl sy'n gweithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru allu siarad Cymraeg. Nid yw hyn yn wir, ac nid yw mwyafrif y staff yn ddwyieithog. Pan aethom ati yn 2014 i fonitro a dadansoddi data am y gweithlu a'r amrywiaeth o ran recriwtio, daeth i'r amlwg nad oedd nifer y staff sy'n uniaethu â'r grŵp BME yn cyfateb i'r cyfraddau yn ardal 'teithio i'r gwaith' Caerdydd. Roedd y dadansoddiad yn dangos bod pobl sy'n uniaethu â'r grŵp BME yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus yn y broses sifftio a chyfweld na phobl nad ydynt yn y grŵp BME. Cafodd cynllun gweithredu ei lunio a phenodwyd Cydgysylltydd BME dros dro i roi'r cynllun ar waith, er mwyn cynnwys ystyriaethau BME yn ein gweithdrefnau recriwtio. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhwystrau, a rhoddwyd dulliau ar waith i helpu i oresgyn y ffaith bod lefel uchel o staff BME ar raddau galwedigaethol is. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yng ngwaith y tîm Adnoddau Dynol ehangach o ran denu ymgeiswyr.

Nid oedd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol am y cyfnod 2013 – 2016 yn cynnwys amcan i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg, er bod amcan o'r fath yn y Cynllun blaenorol. Yn lle hynny, canolbwyntiwyd ar gynllunio gwasanaethau dwyieithog i sicrhau bod gallu dwyieithog yn y manau priodol. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn cynnwys amcan digon tebyg i nifer gynyddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, sef:

"er mwyn cynyddu lefel y sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser, ac i adeiladu ar ein hethos dwyieithog presennol, erbyn haf 2018, byddwn yn mabwysiadu dull lle mae angen o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau Cymraeg ('cwrteisi ieithyddol sylfaenol') ar gyfer pob



swydd a hysbysebir a bod disgwyl i ymgeiswyr naill ai ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu ymrwymo i ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino."

Mae hyn, o bosibl, yn creu rhwystr canfyddedig arall a grybwyllwyd wrth ymgynghori'n fewnol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Felly, mae angen inni ystyried camau gweithredu sy'n lliniaru'r canfyddiad hwn a byddwn yn gweithio gyda'n rhwydweithiau yn y gweithle, Ochr yr Undebau Llafur a phartneriaid allanol i benderfynu ar y camau gweithredu hynny.

Dull Gwrthrychol o Bennu'r Sgiliau Iaith sy'n Angenrheidiol ar gyfer Swyddi

Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae rhai swyddi wedi'u dynodi yn rhai "Cymraeg yn Hanfodol" er mwyn sicrhau bod lefel ac ansawdd y gwasanaeth dwyieithog a ddarperir yn briodol. Drwy fod yn glir sut a pham mae swyddi yn rhai "Cymraeg yn Hanfodol" dangosir agwedd wrthrychol a bydd rheswm dros ddynodi swyddi o ran eu gofynion ieithyddol. Mae hyn yn gymwys i swyddi unigol a/neu anghenion maes gwasanaeth i fodloni gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Gellir cyflawni hyn drwy ddylunio a gweithredu dull o asesu sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi (a oedd yn cael ei ddatblygu pan ysgrifennwyd yr asesiad hwn). Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell proses o sgrinio a dilysu.

Diffinio a Chydnabod Safonau Hyfedredd

O ran ymarferion recriwtio darpar staff ac er lles ein gweithlu presennol, da o beth fyddai cael mwy o eglurhad ynghylch pa safonau hyfedredd sy'n ofynnol o ran y sgiliau iaith Gymraeg. Mae fframwaith hyfedredd iaith sy'n seiliedig ar gymwyseddau iaith (matrics sgiliau) yn cael ei ddatblygu a bydd yn helpu i roi eglurder i staff a darpar weithwyr ynghylch lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n angenrheidiol. Bydd yn fath o fesurydd i'r staff gymharu ag o a/neu, os dymunant hynny, ddatblygu eu sgiliau gyda golwg ar wneud cais am swyddi yn y dyfodol.

Dylai'r gwersi Cymraeg mewnol a'r cyfleoedd dysgu hyblyg i wella sgiliau iaith Gymraeg gael eu cynnwys yn yr hysbysebion swyddi ac ar y tudalennau recriwtio ar wefan y Cynulliad, law yn llaw â'r matrics sgiliau i esbonio'r cymorth sydd ar gael a'r safonau hyfedredd sy'n ofynnol ar gyfer swyddi.

Er mwyn rhoi syniad i ddarpar weithwyr o'r hyn sydd ar gael, dylai'n tudalennau recriwtio ar y wefan gynnwys gwybodaeth am y cymorth a gynigir i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol i weithio mewn amgylchedd dwyieithog ee cyfieithu peirianyddol, y Gwasanaeth Cyfieithu, a'r safon o wasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl. Mae gweithredu fel hyn yn cynyddu tryloywder ac unwaith eto yn rhoi syniad i ddarpar weithwyr sut brofiad yw gweithio mewn gweithle dwyieithog, hynny yw pa gymorth ac adnoddau sydd ar gael i wneud y gwaith; beth mae'n ei olygu i weithio mewn amgylchedd dwyieithog, a pha gymorth sydd ar gael. Dylai hysbysebion swyddi groesawu pobl â sgiliau iaith Gymraeg, ond dylent wneud hynny mewn ffordd nad yw'n atal pobl sydd â braidd ddim Cymraeg neu ddim Cymraeg o gwbl. Byddai matrics sgiliau yn cynnig rhagor o eglurder o ran y safonau a ddisgwylir.



Denu Ymgeiswyr

O ran denu ymgeiswyr, bydd bod yn strategol wrth hysbysebu swyddi, lleoliadau gwaith, mentrau allgymorth a gweithredu cadarnhaol, a rhoi cyd-destun ar y wefan am Gomisiwn y Cynulliad fel darparwr gwasanaeth a chyflogwr dwyieithog yn gwella tryloywder ac eglurder ar gyfer darpar weithwyr. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio gyda meysydd gwasanaeth penodol i edrych ar wahanol ffyrdd o ddenu darpar weithwyr. Mae'r ymgyrch recriwtio diweddar ar gyfer Swyddogion Diogelwch yn enghraifft o hyn. Roedd yn cynnwys blog am y Gwasanaeth Diogelwch <https://blogcynulliad.com/>

Amrywiaeth Ieithyddol a Diwylliannol

Mae cyfle i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol gydnabod yr amlieithrwydd yng ngweithlu Comisiwn y Cynulliad, a bod sgiliau mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg yn gaffaeliad (defnyddir y sgiliau hynny'n rheolaidd pan fo ymwelwyr rhyngwladol ar yr ystâd). Mae cydnabod hyn yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'n testun recriwtio yn cyfleu'r ffaith bod Comisiwn y Cynulliad yn gwerthfawrogi'r cysyniad o amrywiaeth ieithyddol yn ogystal ag amrywiaeth ddiwylliannol. Ar yr un pryd, mae hyn yn ategu statws Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad a gallai ddarbwylllo darpar weithwyr posibl i ystyried y Cynulliad yn gadarnhaol ac fel cyflogwr cynhwysol.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templed Camau Gweithredu

1. Datblygu a gweithredu dull o asesu sgiliau iaith ar gyfer swyddi a meysydd gwasanaeth sy'n cynnwys proses o sgrinio a dilysu sgiliau iaith ar gyfer swyddi.
2. Datblygu a gweithredu Fframwaith Hyfedredd Iaith (Matrics Sgiliau)
3. Dylid sicrhau bod gwybodaeth ar-lein ac ar bapur ar gyfer recriwtio yn cynnwys y matrics sgiliau ac yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r cymorth dysgu sydd ar gael.
4. Dylid bod yn strategol o ran denu ymgeiswyr, gan ddiweddarau'r testun ar y tudalennau recriwtio ar y we i adlewyrchu hyn.
5. Dylid cydnabod amlieithrwydd ac amrywiaeth ddiwylliannol yn y testun recriwtio a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.
6. Dylid croesgyfeirio'r asesiad hwn gyda'r asesiad o'r effaith ar gydraddoleb y gweithdrefnau recriwtio.
7. Dylid monitro effaith y polisi a'r newidiadau i'r polisi a chymryd camau priodol. Gweler argymhelliad REACH y dylid monitro effeithiolrwydd y cynllun, a bod y cynllun a'r camau a gymerir i'w roi ar waith yn cael eu mireinio yn ôl y cynnydd a wnaed. Argymhellwn fod y Comisiwn, wrth fonitro'r Cynllun, yn monitro effaith y Cynllun, ac unrhyw newidiadau i'r Cynllun neu sut y mae'n cael ei weithredu, ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
8. Wrth ystyried testun diwygiedig ar gyfer gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol mewn cynlluniau recriwtio, mae angen i ni sicrhau bod naratif safonol ar gael hefyd wrth recriwtio staff, sy'n cynrychioli pob rhan o'r gymuned. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried hyn a bydd y cynrychiolwyr yn cynnwys aelod sefydlog o'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd y camau gweithredu a ddatblygir yn cael eu hystyried gan ein rhwydwaith cydraddoleb yn y gweithle, REACH fel rhan o'r gweithgor.



9. Yn y cyfamser, dylid ystyried y dull a fabwysiadwyd gan Heddlu De Cymru yn ei ymgyrchoedd recriwtio:

Mae angen Gweithredwyr Ystafell Reoli'r Heddlu i ddelio â galwadau 101 a 999

Fel cyflogwr cyfle cyfartal, croesawn geisiadau gan bob person sy'n gymwys am y swydd. Fodd bynnag, gan fod ymgeiswyr o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn cael eu tangynrychioli o fewn yr Heddlu ar hyn o bryd, byddem yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr BME yn enwedig. Os ydych yn ymgeisydd BME ac os hoffech drafod yn fanylach y cyfleoedd, y cymorth a gynigir a'r ymgyrch recriwtio sydd i ddod, anfonwch e-bost at ein tîm erbyn 29 Awst 2016, a bydd rhywun yn cysylltu â chi.

Fel rhan o'n hystyriaeth o'r dull hwn, byddwn yn cysylltu â sefydliadau eraill i ganfod pa mor effeithiol yw dulliau o'r fath.

10. Mae'r tudalennau recriwtio ar ein gwefan wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar i gynnwys sylwadau gan staff o gefndiroedd amrywiol a byddant yn cael eu diweddarau eto maes o law.

<http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/working/recruitment/Pages/working-here.aspx>

Bwriedir cwblhau elfen arall o'r prosiect gwella hwn o dan y glust "Recriwtio – Amrywiaeth", a fydd yn cysylltu â'r tudalennau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar wefan y Cynulliad.

http://www.assembly.wales/en/gethome/working/recruitment/Pages/get_involved-diversity.aspx

Gellid gwella'r rhain ymhellach drwy ddangos lluniau cynhwysol o ddigwyddiadau allgymorth ac ati a chynnwys mwy o gyfeiriadau at waith y rhwydwaith staff BME.

11. Byddai'n werth ystyried rhoi linciau mewn hysbysebion swyddi penodol sy'n arwain yn uniongyrchol at ein tudalennau amrywiaeth diweddaraf fel bod darpar weithwyr yn cael eu hannog i ymgeisio.
12. Dylai adnoddau dynol a'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant ystyried a oes angen adolygu neu adnewyddu'r cynllun gweithredu BME.
13. Dylid gofyn i bob rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle am eu barn am wneud fideo YouTube a allai fod ar gael adeg ymgyrchoedd recriwtio a'i ddefnyddio mewn digwyddiadau cynefino ac allgymorth.
14. Y timau Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol i gydweithio ar waith allgymorth.

Crefydd neu gred (Dylid ystyried pobl sydd â chrefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred, ymwybyddiaeth ddiwylliannol)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Rydym o'r farn nad yw darpariaethau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol



ar y grŵp hwn. Serch hynny rydym wedi gofyn am farn bellach gan ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle, REACH.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templod Camau Gweithredu

Rhyw (Dylid ystyried menywod a dynion ac unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol oherwydd eu rhyw)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Rydym o'r farn nad yw darpariaethau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y grŵp hwn. Serch hynny rydym wedi gofyn am farn bellach gan ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle, INSPIRE.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templod Camau Gweithredu

Tueddfryd rhywiol (Dylid ystyried pobl sy'n hoyw, yn lesbiaidd, yn ddeurywiol neu'n heterorywiol)

A oes effaith andwyol neu effaith andwyol bosibl?

Oes Nac oes

Nodwch resymau / gyfiawnhad

Yn ein barn ni, nid yw'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y rhai sy'n bwriadu ailbennu eu rhywedd neu sydd eisoes wedi gwneud hynny, Serch hynny, gofynnwyd am farn bellach gan OUT-NAW, ein rhwydwaith cydraddoldeb LGBT yn y gweithle, ac roedd cadeirydd y rhwydwaith o'r farn nad yw'r Cynllun yn effeithio ar y grŵp hwn.

Unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd – rhestrwch hwy yma ac yn y Templod Camau Gweithredu



Er na chânt eu rhestru fel nodweddion gwarchoddedig, dylid ystyried pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel.

Rydym o'r farn nad yw darpariaethau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn effeithio'n andwyol ar y grŵp hwn. Serch hynny rydym wedi gofyn am farn bellach gan ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle, TEULU ac ni ddaeth unrhyw sylwadau i law.

03. A yw'r polisi hwn yn darparu cyfle i ddatblygu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol o bobl?

Ydy, mae'n rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth bod eu hawliau i gael gwasanaethau a gwybodaeth yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol yn cael eu cymryd o ddifrif. Nid oes dim yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n peryglu perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau o bobl ar yr amod ein bod yn gweithredu'r camau sy'n deillio o'r ystyriaethau yn yr asesiad effaith hwn. Sefydliad ifanc yw'r Cynulliad sy'n denu ymwelwyr o gartref a thramor, ac mae gan lawer o'r ymwelwyr hynny ddiddordeb ynddo, yn enwedig yn y modd y mae senedd ddwyieithog yn gweithio. Felly, mae ein dull o weithredu yn ategu diwylliant ein gwlad ddwyieithog ac amlieithog.

Dylai'r camau gweithredu isod, yn enwedig o ran y rhwystrau canfyddedig posibl a nodwyd gan y rhwydwaith REACH mewn perthynas â phobl sy'n nodi eu bod yn bobl BME a phobl ag ychydig o Gymraeg neu ddim Cymraeg, a blaenoriaethu'r camau gweithredu hynny, ein helpu i wneud cynnydd o ran sicrhau bod y gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth pobl a chymunedau Cymru.

04. Casgliad

Pa opsiwn a ddefnyddir?

Gweithredu'r polisi fel y mae

Addasu'r polisi mewn rhyw ffordd

Rhoi'r gorau i'r polisi / penderfyniad



Rhowch eglurhad byr:

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau'n ddogfen fyw, wrth i ni weithio gyda gwahanol grwpiau i nodi risgiau ac i liniaru'r risgiau hynny.



05. Camau gweithredu / tasgau a nodwyd drwy'r Asesiad

Mater	Cam gweithredu / tasg	Prif gyfrifoldeb	Amserlen / Dyddiad targed	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau	Dyddiad cwblhau
Nodi'r posibilrwydd o wahaniaethu ar draws y nodweddion gwarchoddedig	Gofyn am sylwadau gan y rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, ac adborth gan grwpiau allanol perthnasol.	Tîm y Cynllun Ieithoedd Swyddogol	Parhaus yn ôl yr angen		Cafwyd sylwadau a diwygiwyd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.	
Eglurder o ran y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer asesu lefelau sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi gwag.	Datblygu a gweithredu methodoleg asesu sgiliau iaith ar gyfer swyddi a meysydd gwasanaeth sy'n cynnwys proses o sgrinio a dilysu ar gyfer swyddi "Cymraeg yn Hanfodol". Cynnwys rhwydwaith REACH fel aelod o'r gweithgor.					

Eglurder o ran lefelau sgiliau iaith.	Datblygu a gweithredu Fframwaith Hyfedredd Iaith (Matrics Sgiliau)					
Eglurder ar gyfer ymgeiswyr ynghylch lefelau sgiliau iaith a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael	Dylid sicrhau bod gwybodaeth ar-lein ac ar bapur ar gyfer recriwtio yn cynnwys y matrics sgiliau ac yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r cymorth dysgu sydd ar gael.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Dylid bod yn strategol o ran denu ymgeiswyr, gan ddiweddarau'r testun ar y tudalennau recriwtio ar y we i adlewyrchu hyn.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf	Dylid cydnabod amlieithrwydd ac amrywiaeth					

bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	ddiwylliannol yn y testun recriwtio a'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Dylid croesgyfeirio'r asesiad hwn gyda'r asesiad o'r effaith ar gydraddoleb y gweithdrefnau recriwtio.					
Adolygu'r asesiad hwn yn rheolaidd ac yn barhaus.	Dylid monitro effaith y polisi a'r newidiadau i'r polisi a chymryd camau priodol. Gweler argymhelliad REACH y dylid monitro effeithiolrwydd y cynllun, a bod y cynllun a'r camau a gymerir i'w roi ar waith yn cael eu mireinio yn ôl y cynnydd a wnaed. Argymhellwn fod y Comisiwn, wrth fonitro'r Cynllun, yn monitro effaith y					

	<p>Cynllun, ac unrhyw newidiadau i'r Cynllun neu sut y mae'n cael ei weithredu, ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.</p>					
<p>Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.</p>	<p>Wrth ystyried testun diwygiedig ar gyfer gofynion y Cynllun leithoedd Swydddogol mewn cynlluniau recriwtio, mae angen i ni sicrhau bod naratif safonol ar gael hefyd wrth recriwtio staff sy'n cynrychioli pob rhan o'r gymuned. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried hyn a bydd y cynrychiolwyr yn cynnwys aelod sefydlog o'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant.</p>					
<p>Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf</p>	<p>Yn y cyfamser, dylid ystyried y dull a</p>					

<p>bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.</p>	<p>fabwysiadwyd gan Heddlu De Cymru yn ei ymgyrchoedd recriwtio. Fel rhan o'n hystyriaeth o'r dull hwn, byddwn yn cysylltu â sefydliadau eraill i ganfod pa mor effeithiol yw dulliau o'r fath.</p>					
<p>Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.</p>	<p>Mae'r tudalennau recriwtio ar ein gwefan wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar i gynnwys sylwadau gan staff o gefndiroedd amrywiol a byddant yn cael eu diweddarau eto maes o law.</p> <p>http://www.cynulliaid.cymru/cy/gethomeworking/recruitment/Pages/working-here.aspx</p> <p>Gellid gwella'r rhain</p>					

	ymhellach drwy ddangos lluniau cynhwysol o ddigwyddiadau allgymorth ac ati a chynnwys mwy o gyfeiriadau at waith y rhwydwaith staff BME.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Byddai'n werth ystyried rhoi linciau mewn hysbysebion swyddi penodol sy'n arwain yn uniongyrchol at ein tudalennau amrywiaeth diweddaraf fel bod darpar weithwyr yn cael eu hannog i ymgeisio.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Dylai adnoddau dynol a'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant ystyried a oes angen adolygu neu adnewyddu'r cynllun gweithredu BME.					

Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Dylid gofyn i bob rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle am eu barn am wneud fideo YouTube a allai fod ar gael adeg ymgyrchoedd recriwtio a'i ddefnyddio mewn digwyddiadau cynefino ac allgymorth.					
Sicrhau ein bod yn denu pobl o'r gronfa dalentau ehangaf bosibl i wneud ceisiadau am swyddi.	Y timau Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol i gydweithio ar waith allgymorth.					
Gwahaniaethu posibl yn erbyn pobl sydd â chrefydd neu gred, gan gynnwys dim cred.	Gofyn am farn bellach gan ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle, REACH.				Sylwadau wedi dod i law, cyfarfod â'r rhwydwaith a Chyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn i drafod ymhellach.	

A gafwyd cymeradwyaeth gan y Penaethiaid Gwasanaeth .

DO

Sut y caiff y camau gweithredu hyn eu monitro? Gan y Tîm Ieithoedd Swydddogol a'r Gweithgor ar Recriwtio

Dyddiad adolygu:

Yr opsiwn diofyn fydd cyhoeddi pob Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. A ellir cyhoeddi'r Aseiad hwn ar-lein? Os na, pam ddim?*

*Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y [Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth](#) ac yn y [Cynllun Marcio Amddiffynnol](#).